

# CYNLLUN IAITH GYMRAEG DECC

YMRWYMIAD DECC I DDEDDF YR IAITH GYMRAEG

FERSIWN YMGYNGHORI

Mawrth 2011

# Rhagymadrodd

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 mae'n rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg DECC ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn **XXXX XXXX**. Mae'r cynllun iaith yn disgrifio sut y bydd DECC, cyn belled ag y bo'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yn rhoi ar waith yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus ac wrth weinyddu cyfiawnder yng Nghymru. Mae'r cynllun iaith yn ymdrin â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru.

Yn y cynllun iaith hwn, ystyr y term cyhoedd yw unigolion. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei grynswth, neu adran o'r cyhoedd sy'n gweithredu yn rhinwedd swyddogaeth breifat. Ond nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. Gan hynny, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o fewn ystyr y gair cyhoedd wrth iddyn nhw gyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus hynny.

Cafodd y cynllun iaith hwn ei baratoi o dan Adran 21 o'r Ddeddf - ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 o'r Ddeddf. Daeth i rym ar **XXX XXXX**. Mae rhagor o wybodaeth am hyd a lled cynlluniau iaith, ac am eu diben, ar gael yng nghanllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg sydd i'w gweld yn: [www.byig-wlb.org.uk](http://www.byig-wlb.org.uk)

## Cefndir y sefydliad

1. Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (DECC) sy'n gyfrifol am bob agwedd ar bolisi ynni'r Deyrnas Unedig ac am fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd ar ran y Deyrnas Unedig. Nod yr Adran yw helpu i greu Prydain garbon-isel ac ar yr un pryd sicrhau diogelwch yn ein cyflenwadau ynni, tegwch i gwsmeriaid ynni, a chyfleoedd economaidd newydd i Brydain.
2. Mae DECC yn sicrhau bod y Llywodraeth yn gweithredu fel rhanddeiliad effeithiol a deallus yn y materion pwysig hyn, a hynny drwy ymgysylltu'n ddwfn ac yn effeithiol â'r agenda newid hinsawdd fyd-eang a'r agenda ynni ar draws meysydd polisi hollbwysig gan helpu'r Deyrnas Unedig i symud i economi carbon-isel ar draws y sector busnes, y sector cyhoeddus a sector y gymdeithas ddinesig.
3. Mae DECC wedi mabwysiadu pedair blaenoriaeth i helpu i ganolbwyntio'r ymdrechion tuag at ddyfodol carbon-isel:
  - Gostwng faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio gan aelwydydd a busnesau drwy gyfrwng y Fargen Werdd, a helpu i amddiffyn tlodion tanwydd.
  - Sicrhau ynni cadarn ar y ffordd tuag at ddyfodol carbon-isel. Diwygio'r farchnad ynni a gweithio'n rhyngwladol i sicrhau bod gan y Deyrnas Unedig system ynni amrywiol, ddiogel, gadarn a fforddiadwy gan gynnig cymhellion i roi hwb i fuddsoddiadau a dibenion carbon-isel.
  - Sbarduno camau uchelgeisiol ynghylch newid yn yr hinsawdd gartref a thros y môr. Gweithio dros gamau rhyngwladol i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, a chydweithio ag adrannau eraill o'r llywodraeth i sicrhau ein bod yn bodloni cyllidebau carbon y Deyrnas Unedig yn effeithlon ac yn effeithiol.
  - Rheoli'n gwaddol ynni mewn modd cyfrifol a chost-effeithiol. Sicrhau diogelwch y cyhoedd a gwerth am yr arian yn y modd y byddwn yn rheoli'n rhwymedigaethau mewn ynni niwclear, ynni o lo ac ynni arall.

## Hyd a Lled y Cynllun Iaith

4. Mae cynllun iaith DECC yn gymwys i holl swyddogaethau pencadlys DECC ac mae'r adran yn ymrwymo i gydweithredu'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghylch materion sy'n ymwneud â Deddf yr Iaith Gymraeg.
5. Mae pwerau Llywodraeth Cynulliad Cymru a phwerau Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi'u nodi yn Neddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006 ac mae'r rhain wedi'u gwella gan Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol wedyn. Mae'r Llywodraeth yn bwriadu cynnal refferendwm yn 2011 a fyddai, o lwyddo, yn rhoi rhagor o gymhwysedd deddfwriaethol o Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
6. Mae'r rhaniad pwerau rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a San Steffan yn y meysydd sy'n allweddol o berthnasol i gylich gorchwyl DECC wedi'u nodi'n fras yn nhabl 1 (isod).

7. Does dim cyfeiriad penodol at y cyfrifoldeb dros newid yn yr hinsawdd yn yr un o'r tri setliad datganoli, ond y rhagdybiaeth ymarferol yw bod hyn wedi'i ddatganoli'n gyfan gwbl neu'n helaeth ym mhob achos, a hynny fel rhan o'r polisi ar yr amgylchedd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad y bydd Cymru'n gostwng 3% bob blwyddyn ar yr allyriadau nwyon t gwydr yn y meysydd lle mae'r cymhwysedd wedi'i ddatganoli erbyn 2011.

**TABL 1 – Datganoli meysydd polisi DECC i Lywodraeth Cynulliad Cymru**

Y Maes Polisi	Wedi'i ddatganoli/Heb ei ddatganoli
<b>Polisi Newid Hinsawdd</b>	Wedi'i ddatganoli
<b>Polisi Ynni</b>	Heb ei ddatganoli
<b>Cydsyniad datblygu: cynhyrchu ynni ar raddfa fawr</b>	Heb ei ddatganoli
<b>Cydsyniad datblygu: cynhyrchu ynni ar raddfa fach</b>	Wedi'i ddatganoli
<b>Effeithlonrwydd Ynni: drwy reoleiddio a gwahardd</b>	Heb ei ddatganoli
<b>Effeithlonrwydd Ynni: heblaw drwy reoleiddio a gwahardd</b>	Wedi'i ddatganoli
<b>Gwres</b>	Heb ei ddatganoli

8. Yng Nghymru, mae'r polisi ynni wedi'i gadw ar gyfer Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ond, mae gorsafoedd per o dan 50 MW yn cael eu hawdurdodi o dan bwerau cynllunio sydd wedi'u datganoli, ac mae'r ffaith bod cyfrifoldebau polisi eraill wedi'u datganoli yn gallu effeithio ar y polisi ynni.
9. I gael rhagor o wybodaeth, gweler gwefan [Llywodraeth Cynulliad Cymru](#) neu [ganllawiau datganoli Swyddfa'r Cabinet](#).
10. Mae ar DECC gyfrifoldeb i roi sylw i ddarpariaeth Gymraeg, yn enwedig pan allai un o bolisiau neu fesurau DECC gael effaith sylweddol ar Gymru. Mae hyn yn debycach o fod yn wir mewn meysydd polisi sydd wedi'u cadw (er enghraifft, rheoleiddio marchnadoedd ynni) nag mewn meysydd sydd wedi'u datganoli (er enghraifft, y polisi ar gamau llywodraeth leol ar newid yn yr hinsawdd). Bydd DECC yn sicrhau bod digon o amser yn cael ei ganiatáu i'r dimensiwn Cymraeg angenrheidiol gael ei ddarparu.
11. Bydd DECC yn defnyddio'i dylanwad i hybu ymwybyddiaeth o anghenion y rai sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru ac yn annog Cyrrff Cyhoeddus Anadrannol perthnasol i fabwysiadu egwyddorion y Ddeddf. Dyma Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol DECC adeg cyhoeddi'r Cynllun Iaith:

Yr Awdurdod Heddlu Niwclear Sifil

Yr Awdurdod Glo

Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Y Pwyllgor ar Newid yn yr Hinsawdd

Y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol

Y Grŵp Cynghori ar Dlodi Tanwydd

Bwrdd Sicrwydd Cyllido Rhwymedigaethau Niwclear

Y Gronfa Rhwymedigaethau Niwclear

12. Does dim sôn yn y polisi hwn am Asiantaethau Gweithredol, gan nad oes asiantaeth o'r fath gan DECC hyd yn hyn.

## Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

### Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau

13. Bydd ein polisiâu, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun iaith hwn. Fe fyddan nhw'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg a, lle bynnag y bo modd, yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r iaith yn rhan o'u bywyd bob dydd.
14. Wrth inni gyfrannu at ddatblygu neu at gyflwyno polisiâu, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd o dan arweiniad sefydliadau eraill, fe wnawn ni hynny mewn modd sy'n gyson â'r cynllun iaith hwn. Byddwn hefyd yn sicrhau, pryd bynnag y bo'n briodol, fod deddfwriaeth sylfaenol a deddfwriaeth eilaidd a noddir gan yr Adran yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg. Byddwn yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet ar Asesu Effeithiau wrth inni gloriannu effaith polisiâu a mentrau newydd ar y Gymraeg. Mae'r canllawiau cyffredinol hyn ar gael ar wefan Swyddfa'r Cabinet, [yma](#).

### Cyflwyno gwasanaethau

15. Byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau ar gael, lle bo'n briodol, yn Gymraeg gan adael i'r cyhoedd wybod pan fyddan nhw ar gael. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n siarad Cymraeg i gyrchu'n gwasanaethau.

### Ein swyddogaethau rheoleiddio - a gwasanaethau a gynigir ar ein rhan gan drydydd partïon

16. Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd partïon yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun iaith hwn pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny'n cyfeirio at ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gwasanaethau sy'n cael eu contractio allan, rhoi trwyddedau a rhoi mathau eraill o ganiatâd.

### Safonau Ansawdd

17. Pan gaiff gwasanaethau eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, fe fyddan nhw o'r un ansawdd uchel ac yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen. Caiff yr ymrwymiad hwn ei ddatgan yn gyhoeddus yn adroddiad yr Adran, ar wefan cyhoeddiadau DECC ac mewn taflenni eraill fel y bo'n briodol. Caiff yr ymrwymiad ei ddatgan ar wefan DECC hefyd. Gall gwefan cyhoeddiadau DECC gael ei chwilio a bydd cyfarwyddiadau ar sut i ddod o hyd i'r dogfennau Cymraeg sydd ar gael yn cael eu gosod ar adran Cwestiynau Cyffredin Cymraeg y wefan.

### Dyfarnu grantiau a benthyciadau

18. Pan fyddwn yn dyfarnu grantiau a benthyciadau at weithgareddau sy'n effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru fe fyddwn ni, lle bo'n briodol, yn cynnwys amodau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg. Wrth wneud hynny, byddwn yn rhoi sylw i ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau.

## Ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

### Gohebiaeth

19. Dyma fydd ein harfer cyffredin:

20. Pan fydd Uned Ohebiaeth Gweinidogion DECC yn cychwyn gohebiaeth ag unigolyn, grŵp neu sefydliad yng Nghymru, yn ddwyieithog y gwnawn ni hynny oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well ganddyn nhw ohebu'n uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg. Pan fydd aelod o'r cyhoedd yng Nghymru yn ysgrifennu atom yn ddwyieithog neu'n Gymraeg, yn Gymraeg y byddwn yn ateb (os oes angen ateb).

21. Bydd Uned Ohebiaeth y Gweinidogion yn cadw cofnod o'r rhai sy'n dymuno gohebu â ni yn Gymraeg. Bydd ein targed amser i ateb yr un fath ag wrth ateb llythyrau Saesneg, sef 15 diwrnod yn achos gohebiaeth y Gweinidogion ac 20 diwrnod gwaith yn achos cais Rhyddid Gwybodaeth.

22. Os oes rhaid i fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth gael eu cyhoeddi ar wahân, ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael yr un pryd. Bydd papurau amgaeedig i'w hanfon gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, os oes modd.

23. Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth drwy'r e-bost yn ogystal ag i'r holl ohebiaeth Gymraeg ar gopi caled.

### Llythyrau penderfynu

24. Os bwriedir i lythyr penderfynu gyfleu polisi i gynulleidfa lawer ehangach na'r rhai sy'n rhan uniongyrchol o ymchwiliad, neu o weithdrefn statudol arall, byddwn yn pwysu a mesur a ddylai gael ei drin, o dan y cynllun iaith hwn, fel cyhoeddiad.

### Cyfathrebu dros y ffôn

25. Fyddai hi ddim yn ymarferol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg a hynny oherwydd ein lleoliad. Er hynny, pan fyddwn yn sefydlu llinellau cymorth dros y ffôn, neu gyfleusterau tebyg, er mwyn rhoi gwybodaeth, gwasanaethau neu gymorth i'r cyhoedd yng Nghymru fe

fyddwn yn ystyried darparu gwasanaeth Cymraeg. Caiff hwnnw ei hysbysebu ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

### Cyfarfodydd cyhoeddus

26. Bydd DECC yn sicrhau bod yna groeso a modd i aelodau o'r cyhoedd sy'n dod i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru (hynny yw gwrandawiadau ffurfiol, ymchwiliadau, achosion cyfreithiol a digwyddiadau swyddogol tebyg) gyfrannu drwy'r Gymraeg. Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoedduswydd i ddigwyddiad yng Nghymru yn ddwyieithog ac fel arfer yn gwahodd y rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg i roi gwybod i drefnydd y digwyddiad ymlaen llaw er mwyn i gyfleusterau cyfieithu ar y pryd gael eu trefnu.
27. Ein harfer cyffredin fydd darparu papurau a gwybodaeth arall at y cyfarfodydd cyhoeddus hyn yn Gymraeg ac yn Saesneg - ac i adroddiadau neu bapurau a fydd yn cael eu cynhyrchu yn sgil cyfarfodydd cyhoeddus gael eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, yn unol â'r ymrwymïadau yn y cynllun iaith hwn ar gyhoeddiadau.

### Cyfarfodydd eraill â'r cyhoedd

28. Oherwydd ein lleoliad fyddai hi ddim yn ymarferol inni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Mathau eraill o ymwneud â'r cyhoedd yng Nghymru

29. Wrth inni gynnal arolygon cyhoeddus yng Nghymru, ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod pob agwedd ar y cyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Pryd bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i'r ymatebwyr ddweud ai yn Gymraeg ynteu yn Saesneg yr hofffen nhw ymateb i'r arolwg.
30. Wrth inni drefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i'r cyhoedd, a'r rheiny wedi'u lleoli yng Nghymru, byddwn yn asesu a oes angen eu darparu yn Gymraeg.
31. Bydd unrhyw arddangosiad clyweledol, teithiau sain neu gyfryngau rhyngweithiol y byddwn yn eu paratoi i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

## Ein hwyneb cyhoeddus

### Ymgyrchoedd cyhoedduswydd, arddangosfeydd a hysbysebu

32. Ar faterion sydd heb eu datganoli yn unig y bydd ymgyrchoedd DECC ac ymgyrchoedd ar draws y llywodraeth yn gweithredu yng Nghymru, a hynny am mai Llywodraeth Cynulliad Cymru fydd yn ymgyrchu ar faterion sydd wedi'u datganoli megis newid yn yr hinsawdd.
33. Pan fo'n berthnasol i DECC ymgyrchu yng Nghymru, caiff ein holl ddeunydd cyhoedduswydd, ein holl ddeunydd gwybodaeth cyhoeddus, ein holl ddeunydd arddangos a hysbysebu a anelir at y cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu'n ddwyieithog, neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - a bydd y ddau fersiwn yr un mor hwylus i'w cyrchu ac ar gael yr un pryd â'i gilydd.

34. Bydd unrhyw hysbysebion a osodir mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg eu hiaith sy'n cael eu dosbarthu yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (a'r ddau fersiwn yn ymddangos yr un pryd) ac yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.
35. Bydd hysbysebion teledu, sinema a radio sy'n targedu Cymru'n benodol yn cael eu rhedeg yn Gymraeg ac yn Saesneg. Cymraeg fydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg. Cymraeg fydd ymgyrchoedd radio sy'n cael eu darlledu ar Radio Cymru neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol. Ein harfer cyffredin fydd osgoi defnyddio isdeitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion yn Gymraeg.
36. Bydd llinellau ymateb dros y ffôn a ffyrdd eraill o ymateb i ymgyrchoedd sy'n targedu Cymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.
37. Pan fo amryw o wahanol gyfryngau'n cael eu defnyddio mewn ymgyrch benodol mae DECC yn cadw'r hawl i ddefnyddio'r cyfrwng neu'r cyfryngau sy'n fwyaf cost-effeithiol ym marn DECC i gyfleu neges yr ymgyrch yn Gymraeg i'r cyhoedd Cymraeg.

### Cyhoeddiadau

38. Trefnir bod cyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd Cymraeg ar gael yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn Gymraeg. Bydd y rhain yn cynnwys:
  - Dogfennau polisi a dogfennau ymgynghori sy'n ymwneud â materion sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yn gyffredinol
  - Pamffledi a thafleuni sy'n targedu'r cyhoedd yn gyffredinol
  - Ffurflenni a deunyddiau esbonio sydd wedi'u hanelu at y cyhoedd yn gyffredinol
  - Trefnir hefyd fod unrhyw beth sy'n ymwneud yn benodol â Chymru neu â rhan o Gymru ar gael yn Gymraeg
39. Bydd gweithwyr DECC yn penderfynu fesul achos a oes angen cyfieithiad Cymraeg cyflawn yn achos cyhoeddiadau a dogfennau ymgynghori, ac a yw cyfieithiad rhannol (er enghraifft cyfieithiad o'r crynodeb gweithredol) yn fwy priodol. Darperir canllawiau i staff DECC er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau'n deg ac yn gyson hefyd.
40. Pan fyddwn yn cynhyrchu deunyddiau i'r cyhoedd yn ddwyieithog, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg fel arfer yn cael eu cyhoeddi gyda'i gilydd ac yn debyg i'w gilydd. Ar adegau, byddai'r ddau fersiwn yn cael eu cynnwys yn yr un ddogfen pan fyddai hynny'n briodol. Rhesymau dros beidio â chynnwys y ddau fersiwn yn yr un ddogfen fyddai ei bod yn rhy faith neu'n rhy fawr neu ystyriaethau ymarferol neu amgylcheddol. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n eglur fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall a bydd y ddau fersiwn ar gael yr un mor hwylus â'i gilydd.
41. Os nad yw ar gael yn rhad ac am ddim, fydd pris dogfen ddwyieithog ddim yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith – a bydd pris fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân yr un fath â'i gilydd.



42. Bydd yr uchod yn gymwys hefyd i ddeunydd y trefnir ei fod ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

### Gwefannau

43. Bydd gwefan DECC i'r cyhoedd yn cynnwys tudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu'n gwefan bresennol, byddwn yn cymryd i ystyriaeth ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau. Dydyn ni ddim wedi defnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd o'r blaen, er enghraifft ar gyfer gwefan bresennol DECC. Mae gwefan bresennol DECC ar gyfer y byd y tu allan wedi'i seilio ar lwyfan ac iddo allu dwyieithog, sef gallu y gallem ei roi ar waith os gwelir bod ei angen yn y dyfodol.
44. Byddwn yn cymryd y cynllun achredu i ystyriaeth yn y dyfodol wrth gaffael neu wrth ddatblygu systemau Technoleg Gwybodaeth sy'n wynebu'r cyhoedd.
45. Wrth inni drefnu bod cyhoeddiadau ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg byddwn yn eu cyhoeddi ar wefan DECC, gan gynyddu'n raddol felly ar y deunyddiau Cymraeg a fydd ar gael arni. Wrth benderfynu a ddylid trefnu bod deunyddiau'r wefan ar gael yn Gymraeg byddwn yn defnyddio'r un canllawiau ag ar gyfer cyhoeddiadau.

### Ffurflenni a'r deunyddiau esbonio perthynol

46. Ein harfer cyffredin fydd sicrhau bod pob ffurflen a phob deunydd esbonio perthynol i'w defnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, a bod y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni i ymateb i ymgynghoriadau sy'n cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn nodi'n eglur fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
47. Ffurflenni dwyieithog y byddwn yn eu hafon at y cyhoedd, lle bo'n briodol, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr eu cael yn uniaith Gymraeg neu'n uniaith Saesneg. Wrth i sefydliadau eraill ddsbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

### Delwedd Gorfforaethol

48. Caiff llythyrau â phennawd Cymraeg eu cynhyrchu ar gyfer gohebiaeth Gymraeg ag aelodau'r cyhoedd yng Nghymru.
49. Pan gaiff dogfennau eu cynhyrchu'n ddwyieithog neu yn Gymraeg bydd yr enw DECC: Department of Energy and Climate Change yn aros er mwyn sicrhau delwedd yr Adran, ond bydd yna ddisgrifiad Cymraeg.

### Hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff

50. Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff sy'n cael eu gosod mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg eu hiaith sy'n cael eu dosbarthu'n bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Cymraeg fydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith.
51. Bydd y fersiynau Cymraeg yn gydradd o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – p'un a gân nhw eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog ynteu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

52. Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu'n Gymraeg, gyda disgrifiad byr yn Saesneg.
53. Gall hysbysiadau recriwtio sy'n cael eu gosod mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg eu hiaith sy'n cael eu dosbarthu ledled y Deyrnas Unedig fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, pan gaiff yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog, neu'n Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.
54. Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff sy'n cael eu gosod mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

### Hysbysiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau

55. Caiff hysbysiadau i'r cyfryngau yng Nghymru eu rhyddhau yn Gymraeg ac yn Saesneg pan fo'r dyddiadau cau'n caniatáu hynny ac os byddai'r mater yn effeithio ar y cyhoedd yng Nghymru.

## Rhoi'r cynllun iaith ar waith

### Staffio a hyfforddiant iaith

56. Does gan DECC ddim swyddfa yng Nghymru, a hyd yn hyn does neb ar staff DECC wedi cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Byddwn yn ystyried cefnogi ac ariannu hyfforddiant galwedigaethol mewn Cymraeg i staff sydd â chysylltiadau helaeth a chyson â'r cyhoedd yng Nghymru fel rhan o'u dyletswyddau, ac a hoffai ddysgu Cymraeg neu wella'u Cymraeg. Byddwn yn caniatáu i staff ddilyn cyrsiau yn ystod eu gwaith yn ôl yr angen.

### Recriwtio

57. Yn achos unrhyw swyddi sydd â chysylltiadau helaeth a chyson â'r cyhoedd yng Nghymru byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil dymunol neu hanfodol – caiff hyn ei ddatgan mewn cymwyseddau swyddi ac mewn hysbysiadau swyddi. Byddwn yn gofyn am wybodaeth am sgiliau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi, os yw'r swydd yn gofyn am gysylltiadau agos â'r cyhoedd Cymraeg.

### Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

58. Darperir ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau Cymraeg, ac i weithredu yn unol â'r cynllun iaith hwn, wrth inni ddatblygu, dylunio a phrynu cynhyrchion a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
59. Wrth inni ddatblygu systemau TGCh neu eu caffael byddwn yn cymryd safonau TGCh Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ystyriaeth.

### Gweithio mewn partneriaeth

60. Os ni yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau sy'n ymwneud â gwasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun iaith hwn ac eithrio os oes gan y partner sy'n cyflwyno'r gwasanaeth gynllun iaith. O dan

yr amgylchiadau hynny, bydd ein gwasanaeth ni'n cydymffurfio â chynllun iaith y partner sy'n cyflwyno'r gwasanaeth.

61. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth sy'n cael ei harwain gan sefydliad arall, bydd ein cyfraniad ni at y bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun iaith hwn a byddwn yn annog y partneriaid eraill i gydymffurfio, oni bai bod gan y sefydliad arweiniol gynllun iaith. O dan yr amgylchiadau hynny, byddwn yn cydymffurfio â chynllun iaith y sefydliad arweiniol.
62. Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun iaith hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun iaith hwn. Pan fyddwn yn gweithredu mewn consortiwm gyda chyrff eraill sydd â chynlluniau iaith hefyd, byddwn yn annog y consortiwm i benderfynu cadw at un cynllun iaith yn ei holl waith. Dim ond at bartneriaethau sy'n ymdrin â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r uchod yn cyfeirio.

### Trefniadau mewnol

63. Mae'r mesurau yn y cynllun iaith hwn yn dwyn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn ein sefydliad.
64. Y rheolwyr fydd yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun iaith sy'n berthnasol i'w gwaith nhw. Bydd un o uwch-aelodau y Tîm Ymgysylltu â Rhanddeiliaid yn DECC yn cydlynu'r gwaith y mae angen ei wneud i gyflwyno'r cynllun iaith hwn, ei fonitro a'i adolygu.
65. Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu manwl (gweler Atodiad A) yn dangos sut y byddwn yn rhoi'r cynllun iaith ar waith. Daw'r cynllun gweithredu i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun iaith i rym.
66. Byddwn yn rhoi cyhoedduswydd i'r cynllun iaith ymhlith ein staff, ac ymhlith y cyhoedd yng Nghymru. Caiff ei gyhoeddi ar ein gwefan a bydd ar gael ar gais oddi wrth Linell Archebu Cyhoeddiadau DECC. Rhoddir cyhoedduswydd iddo hefyd yn Adroddiad yr Adran a chyhoeddir hysbysiad i'r wasg i roi gwybod am y cynllun iaith i sefydliadau yn y cyfryngau.
67. Caiff y canllawiau presennol sy'n cael eu defnyddio gan ein staff eu diwygio i adlewyrchu'r mesurau yn y cynllun iaith hwn.
68. Byddwn yn trefnu sesiynau briffio a hyfforddi i staff y bydd diwygio'r cynllun iaith yn cael effaith sylweddol ar eu gwaith. Bydd hyn yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cynllun iaith ac yn esbonio sut y bydd y cynllun iaith yn effeithio ar eu gwaith o ddydd i ddydd.
69. Byddwn yn sicrhau mai dim ond cyfieithwyr cymwys a fydd yn cael eu defnyddio i helpu i gyflwyno'r cynllun iaith hwn.
70. Ymgwymerir ag unrhyw fath o gysylltiad â'r cyhoedd yng Nghymru sydd heb ei drafod yn unswydd gan y cynllun iaith hwn mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun iaith.

### Monitro

71. Byddwn yn monitro'n cynnydd tuag at gyflwyno'r cynllun iaith hwn yn erbyn y targedau sydd wedi'i gosod yn y cynllun gweithredu perthynol. Bob mis Mehefin byddwn yn anfon

adroddiadau monitro at Fwrdd yr Iaith Gymraeg ynagl n â'r flwyddyn ariannol flaenorol, gan amlinellu'r cynnydd wrth gyflwyno'r cynllun o'i gymharu â'r targedau yn y cynllun gweithredu perthynol. Bydd DECC yn casglu ac yn cyflwyno adroddiad ar y dangosyddion perfformiad canlynol y gofynnodd Bwrdd yr Iaith Gymraeg amdany'n nhw:

- Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg
- Nifer y systemau TG sydd wedi'u hasesu gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd
- Nifer y cynlluniau gwella sydd wedi'u paratoi yn sgil asesiadau gan ddefnyddio cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog y Bwrdd
- Nifer y cwynion sydd wedi dod i law ynghylch diffyg gwasanaethau Cymraeg a'r camau sydd wedi'u cymryd i ddatrys y cwynion

72. Pan fôn nhw ar gael, bydd DECC yn darparu enghreifftiau o ddogfennau polisi, deddfwriaeth neu fentrau newydd sy'n prif-ffrydio'r Gymraeg.

### Adolygu'r cynllun iaith a'i ddiwygio

73. Byddwn yn adolygu'r cynllun iaith hwn o fewn pedair blynedd ar ôl iddo ddod i rym.

74. Gall y cynllun iaith gael ei adolygu neu ei ddiwygio ar unrhyw adeg yn sgil newid yn ein swyddogaethau, neu yn yr amgylchiadau y byddwn yn ymgymryd â'r swyddogaethau hynny odany'n nhw, neu am unrhyw reswm arall. Chaiff y cynllun iaith mo'i newid heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

### Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

75. Dylai cwynion ynagl n â'r cynllun iaith hwn, neu awgrymiadau i'w wella, gael eu cyfeirio at yr uwch aelod staff sy'n gyfrifol amdano, yn y cyfeiriad a ganlyn:

Peter Gorman  
Stakeholder Engagement Team  
Department of Energy and Climate Change  
3, Whitehall Place  
London SW1A 2HH

Ffôn: 0300 068 5135

Neu drwy'r e-bost: [pete.gorman@decc.gsi.gov.uk](mailto:pete.gorman@decc.gsi.gov.uk)

76. Bydd cwynion ynghylch diffyg gwasanaeth Cymraeg yn cael eu nodi a'u cofnodi gan Uned Ohebiaeth DECC fel rhan o gynllun cwynion safonol DECC.

77. Byddwn yn cydweithredu â'r Bwrdd i ddatrys unrhyw gwynion – ac yn ystod unrhyw ymchwiliad a gynhelir o dan Adran 17 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

## CYNLLUN GWEITHREDU – Y prif dargedau yngl n â chyflwyno Cynllun Iaith Gymraeg DECC

Targed	Dyddiad cwblhau
<p><b>1. Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau</b></p> <p>Byddwn yn cynnwys mewn canllawiau cyffredinol y polisiâu, y mentrau a'r gwasanaethau sydd i fod yn gyson â'r cynllun iaith.</p> <p>Byddwn yn cynnwys y Cynllun Iaith yn Adroddiad yr Adran.</p> <p>Bydd deddfwriaeth DECC yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg lle bynnag y bo'n briodol.</p>	Lansio'r Cynllun Iaith
<p><b>2. Gohebiaeth</b></p> <p>Byddwn yn cynnwys mewn canllawiau cyffredinol ac mewn canllawiau mewnol i'r staff ein hymrwymiaadau ar drafod gohebiaeth Gymraeg, a chanllawiau ar sut i gysylltu â gwasanaeth cyfieithu/cyfieithu ar y pryd sydd â chymwysterau addas. Byddwn yn cadw cofnod o'r rhai sy'n dymuno gohebu â ni yn Gymraeg.</p> <p>Byddwn yn sicrhau penawdau llythyrau Cymraeg i'w defnyddio wrth ohebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru.</p>	Lansio'r Cynllun Iaith
<p><b>3. Cyhoeddiadau</b></p> <p>Byddwn yn cynnwys mewn canllawiau cyffredinol ac mewn canllawiau mewnol i'r staff ein hymrwymiaadau ynghylch cyhoeddiadau sydd o ddiddordeb i'r cyhoedd yng Nghymru neu mewn ardal yng Nghymru, er mwyn sicrhau bod penderfyniadau yn deg ac yn gyson.</p>	Lansio'r Cynllun Iaith
<p><b>4. Hyfforddiant iaith</b></p> <p>Byddwn yn monitro'r galw am hyfforddiant ymhlith y staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, yn dod i gysylltiad yn helaeth ac yn rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn monitro gwybodaeth am fedrau Cymraeg ymgeiswyr am swyddi, os yw'r swydd yn</p>	Yn barhaus - dechrau wrth Lansio'r Cynllun Iaith

Targed	Dyddiad cwblhau
<p>gofyn am gysylltiadau agos â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg.</p>	
<p><b>5. Gweithio mewn partneriaeth</b> Byddwn yn annog cyrff cyhoeddus anadrannol i fabwysiadu egwyddorion y Cynllun Iaith, ac yn monitro hyn.</p> <p>Byddwn yn cynnwys mewn canllawiau cyffredinol ac mewn canllawiau mewnol i'r staff ein hymrwymiaid wrth weithio mewn partneriaeth ag eraill.</p>	<p>Lansio'r Cynllun Iaith</p>
<p><b>6. Hyrwyddo mewnol</b> Byddwn yn rhoi canllawiau mewnol i staff DECC am ymrwymiaid y Cynllun Iaith a sut i roi ei egwyddorion ar waith.</p> <p>Byddwn yn creu ac yn diweddarau tudalennau Cymraeg ar fewnwyd DECC.</p> <p>Byddwn yn cyhoeddi'r Cynllun Iaith ar fewnwyd DECC ac yn rhoi cyhoedduswydd iddo yn fewnol, gan ofyn i'r staff gadw ato yngl n ag unrhyw weithgarwch yng Nghymru.</p> <p>Byddwn yn diweddarau'n canllawiau ar ohebiaeth ac ar gyhoeddiadau ar y fewnwyd i gynnwys cyfarwyddiadau ar ohebiaeth a chyhoeddiadau Cymraeg.</p>	<p>Lansio'r Cynllun Iaith</p>
<p><b>7. Monitro</b> Rydyn ni wedi cytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg y byddwn yn monitro ac yn cyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ffigurau'r flwyddyn ariannol flaenorol ar gyfer:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Nifer a chanran y staff sydd wedi cael hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth iaith Gymraeg</li> <li>- Nifer y systemau TG sydd wedi'u hasesu gan ddefnyddio'r cynllun achredu meddalwedd ddwyieithog a nifer y cynlluniau gwella sydd wedi'u paratoi yn sgil yr asesiadau hynny</li> <li>- Nifer y cwynion sydd wedi dod i law ynghylch</li> </ul>	<p>Yn barhaus - dechrau ym Mehefin 2011 ac ailadrodd bob blwyddyn wedyn</p>

Targed	Dyddiad cwblhau
diffyg gwasanaethau Cymraeg a'r camau sydd wedi'u cymryd i ddatrys y cwynion	
<p><b>8. Wefan</b></p> <p>Pan fyddwn yn trefnu bod cyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, byddwn yn eu cyhoeddi ar wefan DECC.</p> <p>Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu wrth ailddatblygu'n gwefan gyfredol, byddwn yn cymryd canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau i ystyriaeth.</p>	Yn barhaus - dechrau wrth Lansio'r Cynllun Iaith
<p><b>9. Cyfarfodydd cyhoeddus</b></p> <p>Byddwn yn cynnig cyfleusterau cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru.</p>	Yn barhaus - dechrau wrth Lansio'r Cynllun Iaith
<p><b>10. Cyhoeddusrwydd a hysbysebion</b></p> <p>Yn nyddiau cynnar cynllunio ymgyrch yng Nghymru, byddwn yn sicrhau ymwybyddiaeth bod angen cynnwys amser i ddatblygu deunydd cyhoeddusrwydd, deunydd gwybodaeth gyhoeddus, deunydd arddangos a deunydd hysbysebu yn Gymraeg yr un pryd. Gall hyn gynnwys llinellau ymateb dros y ffôn neu hysbysebion wedi'u hanelu at y cyhoedd yng Nghymru ar y teledu, y radio neu mewn cyfryngau eraill.</p>	



© Hawlfraint y Goron 2010  
Department of Energy & Climate Change  
3 Whitehall Place  
London SW1A 2AW  
[www.decc.gov.uk](http://www.decc.gov.uk)

**URN: 11D/0015**